WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 12 Medi 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 464A2013 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o 7 |

Annwyl Mohammed,

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol sydd wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ynghylch sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion; a
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Cyngor ei *Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 2,* yr adolygiad blynyddol o'i Gynllun Corfforaethol 2012-17 (*Cyngor Ardderchog, sy'n agos at y gymuned*), ym mis Ebrill 2013. Mae'r *Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 2* (y Cynllun) yn cydymffurfio â gofynion y Mesur i gynhyrchu Cynllun Gwella Blynyddol. Mae'r Cynllun yn syml ac yn gryno, yn nodi'r hyn mae'r Cyngor eisiau ei gyflawni a sut y bydd yn mynd ati. Mae'r sail resymegol dros ddewis yr Amcanion Gwella (Canlyniadau) yn cael ei hesbonio'n fyr ond yn eglur. Mae'r Cynllun hefyd yn esbonio'r hyn mae'n bwriadu ei wneud yn ystod 2013-14 a'r mesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i werthuso llwyddiant wrth gyflawni ei amcanion.

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r saith Amcan Gwella a ddewisodd saith mis ynghynt pan fabwysiadodd y Cynllun Corfforaethol 2012-17. Mae'r amcanion hyn yn ymwneud ag: addysg ac adeiladau ysgolion; datblygu'r economi leol; gwella ffyrdd; amddiffyn pobl sy'n agored i niwed; strydoedd glân a thaclus; sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael; a moderneiddio'r Cyngor.

Ymgynghorodd y Cyngor yn helaeth yn ystod proses datblygu ei Gynllun Corfforaethol. Rydym yn cytuno gyda barn y Cyngor ei fod yn rhy fuan i ymgynghori eto am yr Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14. Felly cafodd y mesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i werthuso llwyddiant wrth gyflawni ei amcanion eu datblygu o fesurau mewn cynlluniau gwasanaeth drafft ar gyfer 2013-14 a thrafodaethau gyda'r tîm arwain ac Aelodau etholedig.

Yn f'Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013, dywedais nad oedd eglurder y cysylltiadau yn y Cynllun Corfforaethol rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, data llinell sylfaen a thargedau ar gyfer gwella sy'n cyd-fynd â hwy'n gyson eto ar draws pob un o'r saith Amcan Gwella. Mae hyn yn wir o hyd yn y Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 2. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth asesu a yw unrhyw un yn well ei fyd o ganlyniad i'w waith. Mae wedi rhoi canllaw technegol i'r staff sy'n diffinio dangosyddion i fesur llwyddiant ar gyfer yr holl Amcanion Gwella a'r 'trothwy rhagoriaeth' y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyrraedd yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol.

Mae'r Cyngor wedi gwrthod dull o osod targedau wedi'i seilio ar gynnydd fesul cam ar berfformiad y flwyddyn flaenorol ac yn lle hynny wedi dewis dull wedi'i seilio ar gyrraedd 'trothwy rhagoriaeth'. Fel arfer mae trothwyau rhagoriaeth wedi'u seilio ar y Cyngor yn cyflawni perfformiad ymysg y chwech gorau o gynghorau Cymru. Os yw mwy na hanner y cynghorau eraill yng Nghymru'n perfformio'n well na Sir Ddinbych, bydd y Cyngor yn ystyried hyn yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gwella.

Mae'r uwch reolwyr yn deall cysyniad y 'trothwy rhagoriaeth' yn dda. Fodd bynnag, mae ein gwaith diweddar ar ansawdd data'n awgrymu bod rhai o'r staff mewn gwasanaethau unigol yn llai clir ynghylch y dull newydd o gyflawni amcanion corfforaethol ac yn cael anhawster wrth esbonio sut y byddent yn barnu a fyddai pobl Sir Ddinbych yn well eu byd ar ddiwedd oes y Cynllun Corfforaethol.

Mae'r Amcanion Gwella'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n galw am gydgysylltu ledled y cyngor a newid strategol mawr, yn aml mewn partneriaeth gyda sefydliadau allanol allweddol. Ar gyfer pob un o'r Amcanion Gwella, mae cwmpas y canlyniadau a osodwyd ar gyfer 2013-14 yn amrywio. Er enghraifft, dim ond un canlyniad sydd gan y flaenoriaeth i wella ffyrdd, sydd yn darparu ffocws cul iawn o fesur llwyddiant i bobl Sir Ddinbych. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gan y flaenoriaeth adfywio gasgliad ehangach o fesur canlyniadau. I'r blaenoriaethau hynny sydd â chwmpas mwy o fesurau, mae'n gliriach beth mae'r Cyngor yn ceisio ei wella a sut y bydd yn barnu llwyddiant.

Mae'r Cyngor wedi dweud yn glir sut mae ei Amcanion Gwella'n cysylltu â'i gynllun ariannol tymor canol. Mae wedi nodi'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Gwella yn 2013-14, o gyllid refeniw ac o gyllid cyfalaf ychwanegol o £6 miliwn.

Mae'r Cynllun yn gymharol hawdd dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor, a darperir copïau caled ar safleoedd allweddol. Mae'r Cynllun a Chrynodeb y Cynllun Corfforaethol 2012-17 wedi cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn bodloni gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda gyda chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Gwella ddiweddar ar effeithiolrwydd gwaith craffu;
- mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn cymryd rhagor o gamau gan ei fod yn cydnabod bod yna fwy i'w wneud; ac
- mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canol, mae'n cydnabod yr heriau ariannol mae'n eu hwynebu ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i'w rheoli.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

Rwyf wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwelliannau mewn asesiadau gwella blaenorol. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod:

- Fel rhan o'i gylch gwella ei hun, mae'r Cyngor wedi gweithredu ein holl gynigion o'n hadolygiadau â thema o Dechnoleg, Rheoli Gwybodaeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Rwyf wedi cyfeirio o'r blaen yn y llythyr at gynnydd y Cyngor wrth ddarparu sail dystiolaeth ehangach o wybodaeth i'w alluogi i asesu a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella.
- Byddaf yn adrodd yn ddiweddarach eleni ar gynnydd y Cyngor wrth roi sylw i'm cynnig y dylai gynnwys mwy o wybodaeth yn ei adroddiad perfformiad blynyddol am statws a chanlyniadau prosiectau cydweithredol y Cyngor.

Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd hyn ei darparu ar wahân mewn diweddariadau interim lle bo'n briodol. Byddaf yn adrodd eto am berfformiad gwasanaethau, gan gynnwys cynnydd wrth foderneiddio'r Cyngor, yn f'Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda gyda chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru a gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod ein Hastudiaeth Gwella ddiweddar ar effeithiolrwydd gwaith craffu

Yn ystod hydref 2012 a gwanwyn 2013, cymerodd y Cyngor ran weithredol yn ein Hastudiaeth Gwella Cymru gyfan i effeithiolrwydd trefniadau craffu cynghorau. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn nes ymlaen yn 2013 ac yn cynnal digwyddiad dysgu ar y cyd ym mis Tachwedd 2013.

Yn ystod yr astudiaeth, bu i Dîm Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid y Cyngor, oedd yn cynnwys cynghorwyr a swyddogion:

- gymryd rhan mewn gweithdai rhanbarthol ynghyd â'r Timau Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid o gynghorau eraill yng Ngogledd Cymru;
- arsylwi ar gyfarfodydd pwyllgorau craffu mewn cyngor cyfagos, gan roi adborth i aelodau pwyllgorau;
- trafod y ffordd mae craffu'n gweithio yn y cyngor cyfagos gyda grŵp o gadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau; a
- gan ddefnyddio ei drafodaethau a'i arsylwadau, rhoddodd bersbectif allanol mewn cyngor cyfagos arall trwy werthuso ei swyddogaeth craffu yn erbyn meini prawf a ddatblygwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith y Swyddogion Craffu.

Cyn cyflawni'r gweithgareddau a nodir uchod, roedd y Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth craffu ei hun yn erbyn y meini prawf. Ar ôl i'r Tîm Cyfnewid Dysgu gan Gymheiriaid ymweld â chyngor arall a chael gwerthusiad gan un arall o'i gymdogion, ail-werthusodd y Cyngor ansawdd ei waith craffu ei hun, gan ddefnyddio'r hyn roedd wedi'i ddysgu. Rydym wedi rhoi i'r Cyngor ddadansoddiad o'i hunanwerthusiadau, a sut maent yn cymharu â'r rheiny mewn cynghorau eraill ledled Cymru. Rydym yn disgwyl i'r Cyngor ystyried y rhain a phenderfynu sut y bydd yn gwella ei drefniadau craffu rhagor. Byddwn yn gwneud sylwadau ar hunanwerthusiad terfynol y Cyngor fel rhan o'n gwaith parhaus i Asesu Gwelliant.

### Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn cymryd rhagor o gamau gan ei fod yn cydnabod bod yna fwy i'w wneud

Mae'r Cyngor wedi bod yn barod i ddysgu fel y dengys y gwelliannau diweddar mae wedi'u gwneud i'r trefniadau ar gyfer llunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Llywodraethu i gynhyrchu cynllun gweithredu i ddwyn ynghyd yr holl argymhellion mewnol neu allanol allweddol i gynorthwyo â'r gwaith o gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'n parhau i ymchwilio i ffyrdd o wneud rhagor o welliannau i'w drefniadau ar gyfer llunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor, trwy waith y Grŵp Llywodraethu, yn cydnabod bod angen iddo gymryd camau ychwanegol i gael persbectif uwch swyddogion ac aelodau ar effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu. Ychydig o gyfeiriad a geir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyfredol, sef 2012, at reolaethau llywodraethu mewn perthynas â chomisiynu, a chyfyngedig yw'r gwaith sicrwydd mae'r Cyngor yn ei wneud i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gryfhau'r trefniadau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae hefyd yn cymryd camau i wella rheolaethau partneriaethol.

### Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canol, mae’n cydnabod yr heriau ariannol mae’n eu hwynebu, ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i’w rheoli

Mae’r Cyngor wedi cynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canol sydd wedi’i gysylltu â’i amcanion gwella ac yn nodi’r adnoddau refeniw a chyfalaf sydd ar gael i gynorthwyo â’r gwaith o’u cyflawni yn 2014-15. Mae’r Cyngor yn cydnabod y galwadau ariannol sy’n deillio o flaenoriaethau lleol, megis adfywio ardal Gorllewin y Rhyl, a’r angen i weithredu’r rhaglen moderneiddio ysgolion dros y pum mlynedd nesaf.

Ers cyhoeddi f’Adroddiad Gwella Blynyddol gwnaethpwyd nifer o gyhoeddiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau’r Cyngor, megis y Datganiad Cyllideb diweddaraf gan y Canghellor ym mis Mawrth 2013 ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae’r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru y dylai pob cyngor gynllunio ar sail y ‘gostyngiadau mewn cyllid a brofwyd gan lywodraeth leol yn Lloegr ar gyfer y cyfnod i ddod’ yn creu heriau newydd i’r Cyngor. Bydd angen iddo adolygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canol er mwyn iddo gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol yn y cyfnod o 2015 i 2017. Fodd bynnag, mae’r Cyngor eisoes wedi cynhyrchu cynlluniau i ganfod yr arbedion gofynnol ar gyfer 2014-15, er y bydd yr effaith ar wasanaethau’n dibynnu ar y setliad terfynol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

### Cynigion pellach ar gyfer gwella

Nid wyf yn nodi unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i’r cynllun gwaith a’r amserlen

Bydd y Tîm Asesu Gwelliant yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen, a gaiff eu diweddaru’n rheolaidd, yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith. Rwyf wedi ymrwymo o hyd i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus ac ar yr un pryd eich cynorthwyo i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Byddaf yn cyhoeddi'r llythyr gwelliant hwn ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru cyn gynted ag y bydd y llythyr wedi cael ei drafod gan un o bwyllgorau'r Cyngor neu ddeufis ar ôl i'r llythyr gael ei anfon, pa un bynnag yw'r cyntaf.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury – Arweinydd Archwilio Perfformiad